Robert Browne *c.*1550–1633

Anghydffurfiwr a sefydlydd yr eglwys gynulleidfaol gyntaf yn Lloegr

Ganwyd Robert Browne mae'n fwy na thebyg yn Tolethorpe Hall, Rutland, yn drydydd o saith o blant i Anthony a Dorothy Browne. Yr oedd y teulu yn lled fonheddig ac yn perthyn o bell i William Cecil. Aeth yn fyfyriwr i Goleg Corpus Christi, Caergrawnt, ym 1570 gan raddio gyda gradd BA ym 1572. Yno daeth i gysylltiad gyda nifer o fyfyrwyr Protestannaidd blaengar eu meddyliau. Wedi gadael y coleg aeth am gyfnod i weithio fel athro ac wrth wneud hynny myfyriodd ar gyflwr gwael y byd yr oedd ei ddisgyblion yn gorfod byw ynddo. Daeth i'r casgliad fod y bai am hynny ar dystiolaeth aneffeithiol yr Eglwys. Gadawodd ei swydd a thua diwedd 1578 aeth i aros gyda'r rheithor Piwritanaidd Richard Greenham yn Dry Drayton gan bregethu yn ei eglwys. Yn fuan wedyn cafodd wahoddiad i bregethu yn ei hen goleg yng Nghaergrawnt. Yn lle pregethu i foddhau ei wrandawyr, manteisiodd ar y cyfle i ymosod o'r pulpud ar esgobion, gan eu cyhuddo o geisio cymryd lle Crist yn yr Eglwys. Yn y cyfnod hwn roedd ei syniadaeth yn datblygu ac yn raddol daeth i'r casgliad fod y strwythurau eglwysig yn anysgrythurol ac yn annerbyniol gan Dduw. Ar y dechrau credai mewn ceisio diwygio'r eglwys yn fewnol ond teimlai fwyfwy mai ymneilltuo oedd yr unig ateb. Gwaharddwyd ef rhag pregethu gan yr awdurdodau.

Symudodd i Norwich lle'r arhosodd gyda Robert Harrison. Arwyddodd ef a 173 o Biwritaniaid Norwich ddeiseb i'r frenhines sef *A supplication of Norwich men to the Queen's majesty* yn gofyn iddi benodi henuriaid a diswyddo gweinidogion nad oeddent yn pregethu. Yn y cyfnod hwn roedd ganddo ddaliadau Presbyteraidd ynglŷn â'r eglwys gan ddweud y dylai gweinidogion a henuriaid gael eu dewis gan y cynulleidfaoedd. Ym 1581 cafodd ei arestio yn ardal Bury St Edmunds, Suffolk, oherwydd gwrthwynebiad yr Esgob Freake o Norwich i'r ffaith ei fod yn pregethu yn anghyfreithlon mewn anedd-dai. Penderfynodd Browne a rhai Cristnogion eraill anghydffurfio a gadael Eglwys Loegr gan sefydlu eu cynulleidfa eu hunain. Eu nod oedd sefydlu eglwys Feiblaidd lle y

pregethid yr Efengyl, y gweinyddid y sacramentau ac y gweithredid disgyblaeth gan y gynulleidfa o dan arweiniad ei swyddogion.

Oherwydd erledigaeth ymfudodd y gynulleidfa ym 1582 i Middelburg yn yr Iseldiroedd. Yno cyhoeddodd Browne dri thraethawd a'r pwysicaf ohonynt oedd *A Treatise of Reformation without Tarrying for Anie*. Yn hwn galwai am ddiwygio mawr yn Eglwys Loegr ac o ganlyniad gwaharddwyd ei waith.

Chwalodd yr eglwys yn Middelburg a symudodd i'r Alban gan geisio mynediad i'r Kirk yng Nghaeredin. Gwrthodwyd ef oherwydd ei safbwyntiau anghonfensiynol. Wedi ei ddadrithio dychwelodd i Loegr ym 1584 lle y cafodd ei arestio. Cyfaddawdodd gyda'r awdurdodau ac arwyddodd ddatganiad a ddywedai fod Eglwys Loegr yn wir eglwys i Dduw a'i fod o dan awdurdod yr Archesgob Whitgift. Etholwyd ef yn feistr Ysgol St Olave's, Southwark, ym 1586. Yma fe gafodd amser anodd gan i'r Piwritan Stephen Bredwell ei gyhuddo o fod yn rhagrithiwr llwyr a hefyd oherwydd gwrthdaro chwerw gyda'r Ymneilltuwr Henry Barrow.

Erbyn 1588 yr oedd wedi gadael St Olave's ac yn datgan ei fod yn 'Erastian congregationalist'. Ymosododd eto ar esgobion ac ar yr Eglwys Bresbyteraidd yn yr Alban. Ym 1591 ordeiniwyd ef yn offeiriad yn Thorpe Achurch, Swydd Northampton. Cafodd gyfnod anhapus iawn yma gyda'i ail wraig a chydag awdurdodau'r eglwys. Cyhuddwyd ef o Anghydffurfiaeth ac fe'i hesgymunwyd ym 1631. Aeth pethau o ddrwg i waeth ddwy flynedd yn ddiweddarach pan y'i carcharwyd am daro'r cwnstabl Robert Greene. Bu farw yn y carchar yn Northampton ac fe gladdwyd ei gorff ar 8 Hydref 1633 ym mynwent eglwys St Giles. Roedd Browne yn gymeriad deallus ac eithriadol o benderfynol ac ef sefydlodd yr eglwys gynulleidfaol gyntaf yn Lloegr.